**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref – GPG Llawlyfr

24 Mawrth 2021

Penaethiaid Cynllunio, Awdurdodau Cynllunio Lleol
Arweinwyr Adfywio, Awdurdodau Lleol
Penaethiaid Ystadau ac Eiddo

Annwyl Gyfaill,

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd o bwerau prynu gorfodol gan awdurdodau lleol i hwyluso'r adferiad economaidd o bandemig COVID-19 a hyrwyddo egwyddorion creu lleoedd er mwyn sicrhau newid amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd buddiol yn ein cymunedau.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol drwy wella hyder a dealltwriaeth ynghyd â chwalu mythau ynghylch y broses prynu gorfodol. Ein dull o weithredu yw cefnog camau i 'wella sgiliau' cydweithwyr mewn awdurdodau lleol i'w galluogi i lywio'r broses gorchmynion prynu gorfodol a sicrhau manteision polisi cyhoeddus yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys datblygu tir cyhoeddus ar gyfer tai cymdeithasol ac ailddefnyddio eiddo gwag yng nghanol ein trefi.

Fel rhan o'n hymrwymiad i atgyfnerthu’r defnydd o bwerau prynu gorfodol gan awdurdodau lleol, rwyf wedi cyhoeddi heddiw Llawlyfr Gorchmynion Prynu Gorfodol (GPG) Llywodraeth Cymru. Mae adnodd Llawlyfr y GPG yn darparu:

- canllawiau technegol ac arfer gorau ar:
  - (a) rheoli prosiectau gan gynnwys trosolwg "o'r dechrau i'r diwedd" o'r broses GPG,
  - (b) sut i wneud GPG gan gynnwys cyngor cam wrth gam,
  - (c) ymgysylltu a thrafod â phartïon yr effeithir arnynt, a
  - (ch) gwneud taliadau digolledu;
- astudiaethau achos ar ddefnyddio pwerau prynu gorfodol yn llwyddiannus; a
- cyfres o dempledi safonol ac enghreifftiau o ddogfennau GPG.

Mae Llawlyfr y GPG yn ategu'r polisi cynllunio cenedlaethol diwygiedig ar ddefnyddio pwerau prynu gorfodol a'r canllawiau lefel uchel a geir yng Nghylchlythyr 003/2019: Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Cymru Fersiwn 2020)' a gyhoeddais y llynedd. Gallwch weld yr Llawlyfr GPG yma:
https://llyw.cymru/polisi-a-chanllawiau-cynllunio-prynu-gorfodol?_ga=2.186180591.756613506.1616575943-1733649511.1605109843

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr wyf wedi ymrwymo i wella'r broses prynu gorfodol i'w gwneud yn decach, yn fwy effeithlon ac yn ddealladwy. Mae cyhoeddi'r Llawlyfr GPG arloesol yn darparu dull symlach a chyson o lywio'r broses prynu gorfodol a all helpu i gyfyngu ar heriau cyfreithiol llwyddiannus i GPG.

Bydd y Llawlyfr o ddiddordeb i ystod eang o swyddogaethau awdurdodau lleol ac fe'ch anogaf i'w rannu ag unrhyw ran o'ch sefydliad a allai fod yn rhan o'r defnydd o bwerau prynu gorfodol.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol